

# Cerddoriaeth ar gyfer ensemble

## Maes astudio 2 - TGAU Cerddoriaeth CBAC

### Gwead

|                    |                                                                                                                                                         |
|--------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| MONOFFONIG         | Llinell felodig unigol.<br>                                            |
| HOMOFFONIG         | Arddull cordaidd neu alaw a chyfeiliant: yn symud gyda'i gilydd.<br>   |
| POLYFFONIG         | Gwead mwy cymhleth (gwrthbwyntiol) gyda nifer o linellau gwahanol.<br> |
| Alaw a chyfeiliant | Cywair gyda chyfeiliant (e.e. cordiau).                                                                                                                 |
| Unsain             | Mae pob rhan yn chwarae/canu yr un gerddoriaeth ar yr un pryd.                                                                                          |
| Cordioli           | Mae'r gerddoriaeth yn symud mewn cordiau (e.e. fel emyn/coral).                                                                                         |
| Desgant            | Llinell addurnol, â chywair uwch.                                                                                                                       |
| Cyfalaw            | Alaw newydd, wedi'i chyfuno â'r thema.                                                                                                                  |
| Crwn               | Canon (lleisiol) byr.                                                                                                                                   |
| Canon              | Caiff yr alaw ei hailadrodd yn union mewn rhannau gwahanol ond yn dechrau ar adegau gwahanol, gyda'r rhannau yn gorgyffwrdd.                            |
| Drôn               | Nodau dal hir.                                                                                                                                          |
| Gwead 2-3-4 rhan   | Gweadau sydd â 2/3/4 llinell wahanol.                                                                                                                   |

### Jazz a blues

**Scat:** chwarae'n fyrfyfyr yn lleisiol gan ddefnyddio sillafau dieiriau/disynnwyr.  
**Byrffyr:** cerddoriaeth sy'n cael ei chreu yn y fan a'r lle.  
**Nodau blue:** 3<sup>yddau</sup>, 5<sup>edau</sup>, 7<sup>fedau</sup> wedi'u gostwng.  
**Trawsacennu:** acenion oddi ar y curiad.  
**Galw ac ateb:** brawddeg sy'n cael ei chwarae/canu gan arweinydd a'i hailadrodd gan eraill.  
**Bas sy'n cerdded:** llinell bas sy'n 'cerdded' i fyny ac i lawr nodau graddfa/arpeggio.  
**Arddull swing:** rhythm jazz gyda theimlad tripled/dot.

Gall ensemble jazz gynnwys:

#### Adran rythm

- Drymiau
- Bas (gitâr neu fas dwbl)
- Piano/gitâr

#### 'Adran cyrn'

- Trwmped
- Trombôn
- Sacsoffon

Mae rhai grwpiau yn defnyddio amrywiaeth ehangach o offerynnau e.e. clarinét, feiolin.

### Blues 12 bar

#### Cordiau

|    |    |   |     |
|----|----|---|-----|
| I  | I  | I | I   |
| IV | IV | I | I   |
| V  | IV | I | I/V |

#### Enghraifft yn C fwyaf

|   |   |   |     |
|---|---|---|-----|
| C | C | C | C   |
| F | F | C | C   |
| G | F | C | C/G |

### Cerddoriaeth siambr

Roedd cerddoriaeth siambr yn gerddoriaeth ar gyfer ensemble bach, yn wreiddiol yn cael ei chwarae mewn ystafell fach yng nghartref rhywun.

**Baróc:** Roedd y **sonata triawd** yn cynnwys un neu ddau o unawdwyr, a **basso continuo** (a oedd yn cynnwys offeryn â chywair isel megis sielo yn chwarae llinell bas, gydag offeryn yn chwarae cordiau e.e. harpsicord).

**Clasurol:** Roedd **pedwarawd llinynnau** (dwy feiolin, fiola a sielo) yn boblogaidd. Roedd ganddyn nhw **bedwar** symudiad, gyda'r symudiad 1<sup>af</sup> fel arfer ar ffurf sonata.

**Rhamantus:** Roedd grwpiau cerddoriaeth siambr yn fwy amrywiol yn y cyfnod Rhamantaidd, yn defnyddio ystod ehangach o offerynnau (e.e. pumawd piano, triawd corn). Roedd perfformiadau yn digwydd mewn neuaddau cyngerdd mwy yn ogystal â mewn 'siambrau' bach.

### Darn o gerddoriaeth ar gyfer:

|           |               |
|-----------|---------------|
| DEUAWD    | 2 berfformiwr |
| TRIAWD    | 3 berfformiwr |
| PEDWARAWD | 4 berfformiwr |
| PUMAWD    | 5 berfformiwr |
| CHWECHAWD | 6 berfformiwr |
| SEITHAWD  | 7 berfformiwr |
| WYTHAWD   | 8 berfformiwr |

### Cerddoriaeth werin Gymreig

Mae ensembles mwy megis **CORAU** a **BANDIAU PRES** yn boblogaidd yng Nghymru, ond mae llawer o grwpiau llai hefyd, gan gynnwys grwpiau gwerin. Caiff y delyn a'r feiolin eu defnyddio'n eang.

### Theatr gerdd

Gall eitemau cerddorol gynnwys:

**Unawd:** cân ar gyfer un canwr/cantores.

**Deuawd:** cân ar gyfer dau ganwr/dwy cantores.

**Triawd:** cân ar gyfer tri chantor/tair cantores.

**Ensemble:** cân sy'n cael ei chanu gan grŵp bach.

**Corws:** grŵp mawr (fel arfer y cwmni/cast llawn).

**Adroddgan:** arddull lleisiol sy'n dynwared rhythmau ac acenion lleferydd.

**Agorawd:** cyflwyniad cerddorfaol i'r sioe, sydd fel arfer yn defnyddio alawon o'r sioe.

Caiff y gerddorfa/band ei ddefnyddio i **gyfeilio** i'r lleisiau a darparu **isgerddoriaeth**.

### Lleisiau

## Soprano Alto Tenor Bas

Gall y band/cerddorfa (sydd weithiau'n cael ei galw'n 'pwll' cerddorfa) ddefnyddio **llinynnau**, **chwythbrennau** (sydd weithiau'n cael eu galw'n offerynnau cyrs), **pres** ac **offerynnau taro** a/neu fand roc/pop, yn dibynnu ar yr arddull. Mae'r rhan fwyaf o sioeau hefyd yn defnyddio allweddellau neu synths.

Mae **CERDD DANT** yn ffurf boblogaidd, sy'n aml yn cael ei pherfformio mewn Eisteddfod. Mae'r delyn yn dechrau yn gyntaf, yn chwarae alaw osodedig (e.e. cân werin draddodiadol) ac mae'r canwr/cantores yn ymuno, gan fyrffyrir cyfalaw.